# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Datblygu strategaeth wirfoddoli

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Holiadur
3. Strwythur Disgrifiad Rôl
4. Gwybodaeth bellach


Diben y daflen wybodaeth hon yw eich arwain drwy broses feddwl strwythuredig i'ch galluogi i lunio strategaeth gwirfoddolwyr os ydych yn ystyried dod â gwirfoddolwyr i'ch mudiad neu ffurfioli gwirfoddoli yn eich mudiad.

## Cyflwyniad

Ystyriwch y cwestiynau isod; trefnwch i gwrdd ag eraill a nodwch eich ymatebion.

Gellir ysgrifennu'r rhain er mwyn llunio datganiadau, cynllun neu siartiau llif neu linell amser a fydd yn eich helpu i baratoi ar gyfer gwirfoddolwyr ac adolygu'ch cynnydd. Gyda'i gilydd bydd hyn yn ffurfio strategaeth wirfoddoli eich mudiad/prosiect.



Llun: Dwy fenyw wrth fwrdd, yn dangos sut i ddod o hyd i wirfoddoli ar-lein.
© Llun gan Amy Hirschi ar Unsplash

Gallech siarad â'r tîm Gwirfoddoli yn eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol i gael cymorth gyda hyn.

## Cwestiynau i'w hystyried

Pam mae arnoch eisiau cynnwys gwirfoddolwyr neu ffurfioli gwirfoddoli?

Teipiwch eich ateb yma

Beth fydd hyn yn ei ychwanegu at eich mudiad?

Teipiwch eich ateb yma

A ydych yn teimlo y gallwch gwrdd â'r safonau arfer orau a amlinellir yn y fframwaith Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr neu weithio tuag atynt??

Teipiwch eich ateb yma

Beth yw gallu'ch mudiad i gefnogi gwirfoddolwyr (o ran amser ac adnoddau)?

Teipiwch eich ateb yma

Beth ydych yn amcangyfrif fydd cost cynnwys gwirfoddolwyr, gan gynnwys recriwtio, hyfforddi, goruchwylio ac ad-dalu treuliau?

Teipiwch eich ateb yma

A ydych yn ystyried chwilio am gyllid i ddatblygu gwirfoddoli?

Teipiwch eich ateb yma

Pwy yw'r unigolyn/unigolion penodedig sydd â'r gallu a'r hyder i hyfforddi, cefnogi a goruchwylio gwirfoddolwyr?

Teipiwch eich ateb yma

A yw staff yn deall y penderfyniad i gynnwys gwirfoddolwyr, ac yn cytuno ag ef?
Os nad ydynt, sut gallwch chi fynd i'r afael â phryderon staff?

Teipiwch eich ateb yma

A yw defnyddwyr y gwasanaeth a / neu'r gymuned rydych yn ei gwasanaethu'n deall rôl a swyddogaeth gwirfoddolwyr?

Teipiwch eich ateb yma

A yw cyllidwyr yn ymwybodol ac yn gefnogol o gyfraniad gwirfoddolwyr sy'n 'ychwanegu gwerth' at weithgareddau a gwasanaethau'r mudiad?

Teipiwch eich ateb yma

A oes angen i chi lunio neu adolygu'ch polisi gwirfoddoli, polisïau eraill a'ch gweithdrefnau, gan sicrhau eu bod yn addas ar gyfer gwirfoddolwyr?

Teipiwch eich ateb yma

Pa hyfforddiant neu gymorth sydd ei angen ar y rheini a fydd yn hyfforddi, yn recriwtio, yn goruchwylio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr?

Teipiwch eich ateb yma

**Gwybodaeth**

Dylai cefnogi gwirfoddolwyr fod yn rhan benodol o ddisgrifiad swydd y sawl a benodir, a dylai goruchwyliaeth staff gynnwys amser i drafod heriau a llwyddiannau rheoli gwirfoddolwyr.

Beth fydd gwirfoddolwyr yn ei wneud?

Teipiwch eich ateb yma

Am ba sgiliau fyddwch chi'n chwilio?

Teipiwch eich ateb yma

Beth fydd yn denu gwirfoddolwyr at y rolau hyn?
A allwch greu rolau amrywiol a fydd yn apelio at amrywiaeth eang o bobl?
Er enghraifft, meddyliwch am gyfleoedd tymor byr a hirdymor, a rolau cyffredinol, hawdd mynd atynt yn ogystal â rolau mwy penodol a heriol.

Teipiwch eich ateb yma

A allwch apelio at wirfoddolwyr sydd â gwahanol resymau dros wirfoddoli ac sydd, o bosib, ag anghenion cefnogi gwahanol?

Teipiwch eich ateb yma

Ym mha ffordd y byddwch yn gwrando ar leisiau, adborth neu gwynion gwirfoddolwyr, ac ym mha ffordd y byddant yn rhan o'r tîm?

Teipiwch eich ateb yma

A allwch feddwl am ffyrdd eraill o gynnwys eich gwirfoddolwyr a chofnodi eu hawgrymiadau?

Er enghraifft, arolwg adolygu blynyddol, cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a diwrnodau cynllunio neu gyflwyno blwch awgrymiadau.

Teipiwch eich ateb yma

Sut byddwch yn gwerthuso llwyddiant eich rhaglen wirfoddoli?

Teipiwch eich ateb yma

Sut byddwch yn adnabod ac yn gwobrwyo cyrhaeddiadau gwirfoddolwyr?

Teipiwch eich ateb yma

# Strwythur Disgrifiad Rôl

Mae disgrifiadau o'r rôl neu'r dasg yn helpu i ddiffinio pob rôl. Bydd strwythuro disgrifiad o'r rôl yn y fformat isod hefyd yn amlygu pa weithdrefnau rheoli gwirfoddolwyr y mae angen i chi eu creu.

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Dylai hwn ddisgrifio'n glir yr hyn y bydd y gwirfoddolwr yn ei wneud |
| **Diben** | Y cyd-destun, sut bydd y gwirfoddolwr yn cyfrannu at nod cyffredinol ehangach |
| **Gweithgareddau a awgrymir** | Y prif dasgau a fydd yn cael eu cynnal er mwyn cyflawni'r diben |
| **Graddfa amser** | Pa mor aml, pa mor rheolaidd, pa ddiwrnodau ac amseroedd, ac am ba hyd fydd y cyfle gwirfoddoli'n bodoli. (Noder: Mae'n bwysig dangos hyblygrwydd yn y defnydd o iaith er mwyn osgoi cytundeb cyflogaeth anfwriadol. Am ragor o wybodaeth, gweler ganllaw CGGC, Gwirfoddoli a'r Gyfraith) |
| **Lleoliad/Safle** | Lleoliad a hygyrchedd y safle gwirfoddoli (a hyfforddi / goruchwylio) |
| **Goruchwyliaeth / Cyfleoedd i Drafod eich Gwirfoddoli** | A oes patrwm rheolaidd neu ddisgwyliad o ran goruchwyliaeth. Rhowch enw neu rôl y sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio. |
| **Rhinweddau** | Sgiliau, agweddau, gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol, unrhyw god gwisg neu ofynion o ran ymddygiad. Nodwch a oes cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg |
| **Buddion** | Darparu hyfforddiant rôl-benodol, Ad-dalu costau teithio a threuliau eraill, Darparu geirda ar ôl cyfnod penodol o wirfoddoli, cydnabyddiaeth o'r gwirfoddoli, megis tystysgrifau diolch, digwyddiadau cydnabod Wythnos Gwirfoddolwyr, enwebiadau gwobrau cenedlaethol lle bo'n briodol, gweud gwahaniaeth, bod yn rhan o dîm, datblygu sgiliau |
| **Risgiau** | Amlygu unrhyw wybodaeth allweddol y mae angen i wirfoddolwyr fod yn ymwybodol ohoni, o'ch asesiad risg o'r rôl hon (Noder: am ragor o wybodaeth gweler canllaw CGGC ar gwblhau asesiadau risg) |

Hysbysebwch gyfleoedd gwirfoddoli ar wefan Gwirfoddoli Cymru, naill ai drwy gofrestru ar y wefan fel mudiad ac uwchlwytho cyfleoedd, yn ddwyieithog, eich hun, neu drwy gysylltu â'ch canolfan wirfoddoli leol a all gynnig arweiniad.

Gallwch hefyd hyrwyddo'ch cyfleoedd gwirfoddoli trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

**Dolen Allanol**

Ceir enghraifft o ddisgrifiad rôl drwy'r ddolen isod.

Enghraifft o Ddisgrifiad Rôl Gwirfoddolwr

## Gwybodaeth bellach

**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr - Safonau**
**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**
https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard

**Taflenni Gwybodaeth Ychwanegol**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**

4.3 Creu polisi gwirfoddoli
4.4 Recriwtio, dethol a sefydlu gwirfoddolwyr
4.7 Sut i sicrhau bodlonrwydd gwirfoddolwyr
4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel
4.11 Gwirfoddolwyr a'r gyfraith
4.13 Treuliau gwirfoddolwyr
4.26 Rheoli pryderon yn ymwneud â gwirfoddolwyr

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.